# EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

**Rhif 84 – Deuawd Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9**
'Iesu Tirion' – Wil Ifan

## Iesu Tirion – Wil Ifan

Iesu tirion gwylia drosom ar hyd y nos.
Rho dy freichiau'n dynn amdanom ar hyd y nos.
Cadw blant y byd yn gyfan
Uwch y plas a'r bwthyn bychan
Doed angylion gwyn i hedfan ar hyd y nos.

Cofia bawb fydd allan heno ar hyd y nos,
Drwy yr oriau hir yn gweithio ar hyd y nos.
Cofia'r morwr ar y tonnau,
Cofia'r crwydryn yn ei garpiau,
A Robin Goch ym mrig y cangau ar hyd y nos.

Cofia'r truan yn ei ddagrau ar hyd y nos.
Cofia'r claf sydd yn ei boenau ar hyd y nos.
Taena di ei wely heno,
Esmwythâ'i obennydd eto.
A rho gwsg melysaf iddo ar hyd y nos.